Taflen 1

# Gweithgaredd 9: Ailfeddwl Cyfrifoldeb

USC Shoah Foundation | IWITNESS

JHASW/CHIDC

## Materion yn ymwneud â chwrs yr Holocost yn ystod yr Ail Ryfel Byd

### 1. *Einsatzgruppen*: Trosolwg[1]

*Mae Einsatzgruppen* yn golygu ‘grwpiau gweithredu arbennig’ neu ‘unedau lladd symudol’.

Pryd bynnag y byddai byddin yr Almaen Natsïaidd yn gorymdeithio i wlad, roedd *Einsatzgruppen* o'r Heddlu Diogelwch a gwasanaeth cudd-wybodaeth yr SS yn dilyn yn syth i sicrhau tiriogaeth a oedd newydd ei atafaelu. Roedd eu tasgau'n cynnwys nodi a niwtraleiddio gelynion posibl i reolaeth yr Almaen, cipio safleoedd pwysig ac atal difrod, recriwtio cydweithwyr a sefydlu rhwydweithiau cudd-wybodaeth. Pan ymosododd yr Almaen ar Wlad Pwyl ym mis Medi 1939, lladdodd yr *Einsatzgruppen* sifiliaid a oedd yn cael eu hystyried yn elynion hefyd. Ynghyd ag unedau o’r Waffen SS, Heddlu Trefn yr Almaen, a chydweithredwyr lleol, fe saethon nhw filoedd o Iddewon a degau o filoedd o aelodau o’r elitau Pwylaidd.[2]

Gyda dechrau rhyfel Hitler yn erbyn yr Undeb Sofietaidd ym mis Mehefin 1941, cynyddodd graddfa gweithrediadau llofruddiaeth dorfol *Einsatzgruppen* yn aruthrol. Y prif dargedau oedd swyddogion y Blaid Gomiwnyddol a gwladwriaeth Sofietaidd, Roma, ac yn anad dim, Iddewon o unrhyw oedran neu ryw. O dan orchudd rhyfel a chan ddefnyddio esgus rheidrwydd milwrol, trefnodd a helpodd yr *Einsatzgruppen* i saethu mwy na hanner miliwn o bobl, y mwyafrif helaeth ohonynt yn Iddewon, yn ystod naw mis cyntaf y rhyfel. Er enghraifft, dros ddau ddiwrnod ym mis Medi 1941, fe wnaeth grŵp bach o *Einsatzgruppe C* ynghyd ag unedau mwy o Waffen SS, Heddlu Trefn a swyddogion cynorthwyol o Wcrain 33,771 o Iddewon yn Baby Yar (Rwsieg) neu Babin Yar (Wcreineg), ceunant y tu allan i Kyiv (Kiev) yn Wcrain.

Bu farw traean o holl ddioddefwyr yr Holocost Iddewig o ganlyniad i saethu torfol.

---

[1] United States Holocaust Memorial Museum, *Holocaust Encyclopaedia: Einsatzgruppen: An Overview* <https://encyclopedia.ushmm.org/content/en/article/einsatzgruppen> [cyrchwyd 13 Mehefin 2022].

[2] Roedd y modd yr ymatebodd pobl gyffredin yn Ewrop feddianedig i erledigaeth yr Iddewon yn amrywio yn dibynnu ar ffactorau, fel gwlad, rhanbarth, graddau rheolaeth y Natsïaid, yr elyniaeth bresennol tuag at Iddewon, a chanfyddiadau ynghylch a fyddai’r Almaen yn ennill y rhyfel ac yn parhau i fod yn feistr ar Ewrop. Roedd cymhellion pobl nad oeddent yn Almaenwyr a gymerodd ran yn erledigaeth a llofruddiaeth Iddewon hefyd yn amrywio. Mae'n bosibl bod heddluoedd a milisia ategol wedi'u hysgogi gan wrthsemitiaeth Natsïaidd, tra bod gan eraill gymhellion mwy diddychymyg - yr angen am gyflogaeth, incwm a bwyd neu'r cyfle i elwa, gan gynnwys hunangyfoethogi o eiddo oedd wedi’i ysbeilio. Nod eraill oedd dangos eu teyrngarwch i'w meistri Almaenig newydd. Cydweithiodd cenedlaetholwyr radical yn Wcrain a'r Baltig (Lithwania, Latfia, Estonia) â'r Almaenwyr oherwydd eu bod am sefydlu gwladwriaethau annibynnol, ethnig homogenaidd.

European Commission

© 2022 Jewish History Association of South Wales / Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru

jhasw.com
iwitness.usc.edu

© 2022 USC Shoah Foundation




Adnodd wedi’i greu gan Emelye Clifford, Gwirfoddolwr JHASW/CHIDC

Taflen 1

# Gweithgaredd 9: Ailfeddwl Cyfrifoldeb

## Materion yn ymwneud â chwrs yr Holocost yn ystod yr Ail Ryfel Byd




*Cyflafan Einsatzgruppen yn nwyrain Ewrop.*[3]

*Delwedd: United States Holocaust Memorial Museum.*

### 2. Ateb Terfynol: Trosolwg[4]

Roedd y term 'Ateb Terfynol i'r Cwestiwn Iddewig' yn air teg [euphemism] a ddefnyddiwyd gan arweinwyr yr Almaen Natsïaidd. Roedd yn cyfeirio at lofruddiaeth dorfol Iddewon Ewrop. Daeth â diwedd i bolisïau oedd â'r nod o annog neu orfodi Iddewon i adael y Reich Almaenig a rhannau eraill o Ewrop. Disodlwyd y polisïau hynny gan ddiddymiad systematig.

Nid yw'n glir pryd yn union y penderfynodd arweinyddiaeth y Natsïaid lofruddio Iddewon Ewrop. Mae'n debyg bod y penderfyniad wedi'i wneud rywbryd yn 1941, gyda goresgyniad yr Undeb Sofietaidd.

---

[3] United States Holocaust Memorial Museum, *Holocaust Encyclopaedia: Einsatzgruppen massacres in eastern Europe* <https://encyclopedia.ushmm.org/content/en/map/einsatzgruppen-massacres-in-eastern-europe> [cyrchwyd 13 Mehefin 2022].

[4] United States Holocaust Memorial Museum, *Holocaust Encyclopaedia: 'Final solution': Overview* <https://encyclopedia.ushmm.org/content/en/article/final-solution-overview> [cyrchwyd 13 Mehefin 2022].

© 2022 Jewish History Association of South Wales / Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru

© 2022 USC Shoah Foundation

# Gweithgaredd 9: Ailfeddwl Cyfrifoldeb



## Materion yn ymwneud â chwrs yr Holocost yn ystod yr Ail Ryfel Byd

Alltudiodd yr Almaenwyr Iddewon o bob rhan o Ewrop i wersylloedd difodi yng Ngwlad Pwyl, lle cawsant eu lladd yn systematig, a hefyd i wersylloedd crynhoi, lle cawsant eu defnyddio ar gyfer llafur gorfodol. Defnyddiwyd gwersylloedd tramwy fel Westerbork, Gurs, Mechelen, a Drancy yng ngorllewin Ewrop a gwersylloedd crynhoi fel Bolzano a Fossoli di Carpi yn yr Eidal, fel canolfannau casglu ar gyfer Iddewon, a gafodd eu halltudio wedyn ar drenau i'r gwersylloedd difodi.

Llofruddiwyd chwe miliwn o ddynion, merched a phlant Iddewig yn ystod yr Holocost - dwy ran o dair o'r Iddewon a oedd yn byw yn Ewrop cyn yr Ail Ryfel Byd.




*Gwersylloedd mawr y Natsïaid yn Ewrop, Ionawr 1944.*[5]

*Delwedd: United States Holocaust Memorial Museum.*

[5] United States Holocaust Memorial Museum, *Holocaust Encyclopaedia: Major Nazi camps in Europe, January 1944* <https://encyclopedia.ushmm.org/content/en/map/major-nazi-camps-in-europe-january-1944> [cyrchwyd 13 Mehefin 2022].


© 2022 Jewish History Association of South Wales / Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru

© 2022 USC Shoah Foundation